**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

25 Ionawr 2022

Annwyl Gyfeillion,

Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym y llynedd ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, rydym wedi cytuno y bydd tai addas yn faes blaenoriaeth trosfwaol i ni. O fewn y maes hwn, rydym wedi nodi y bydd craffu ar bolisïau a chamau sy'n cael eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd yn un o'n prif flaenoriaethau dros dymor y Senedd hon, ac y byddwn yn ceisio adeiladu ar waith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

Croesawodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd y cynnydd a wnaed ar ddechrau pandemig COVID-19 o ran darparu llety dros dro i bobl a oedd yn cysgu ar y stryd ac i bobl eraill yr oedd angen cartref arnynt. Fodd bynnag, gwyddom fod tystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd bellach yn cynyddu eto. Rydym hefyd yn ymwybodol, ers dechrau'r pandemig, fod nifer fawr o bobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, wedi dod i sylw awdurdodau lleol ac wedi cael llety dros dro bob mis.

Rydym yn dymuno gwahodd rhanddeiliaid i rannu eu barn ar y sefyllfa bresennol ac i awgrymu materion penodol y gallem ganolbwyntio arnynt wrth ymgymryd â'n gwaith arfaethedig ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau sydd gennych ar y materion a ganlyn, er nad oes gofyn i chi gyfyngu eich sylwadau i'r meysydd hyn:

- Eich barn ar effeithiolrwydd y dull "pawb i mewn" a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ers dechrau'r pandemig, a'r heriau o ran cynnal y dull hwnnw dros y misoedd nesaf;
- Eich barn ar y rhesymau dros y cynnydd ymddangosiadol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd a'r hyn y gellir ei wneud i wrthdroi'r sefyllfa hon;

- Eich ymateb i gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, sef *Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026*, gan gynnwys yr amserlenni a amlinellir yn y cynllun a'r camau gweithredu penodol o fewn y cynllun a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor;
- Eich barn ar y dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2022-23 sy'n cefnogi'r broses o roi diwedd ar ddigartrefedd, yn ogystal â'r dyraniadau sy'n cynyddu'r cyflenwad o dai yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat, ynghyd â'u hargaeledd a'u hygyrchedd;
- Eich sylwadau ar y meysydd y dylid eu blaenoriaethu yn y Papur Gwyrdd ar ddiwygio deddfwriaethol, sef y papur y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gyhoeddi yn 2022, a'r meysydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt;
- Eich ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad, Adolygiad Digartrefedd: Drws agored i newid cadarnhaol.

Byddem yn ddiolchgar pe byddai modd inni gael eich ymatebion erbyn dydd Gwener 25 Chwefror, fel y gallant gynorthwyo'r broses o gynllunio ein rhaglen waith ar gyfer tymor yr haf. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â chi wrth i ni ddatblygu ein gwaith ar y mater pwysig hwn.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.